

Edwina Hart MBE CStJ AC / AM
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Minister for Economy, Science and Transport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

William Graham AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Menter a Busnes

4 Ebrill 2016

Annwyl William

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes am y Blaenoriaethau ar gyfer dyfodol Seilwaith Rheilffyrdd Cymru.

Rwyf wedi nodi argymhellion y Pwyllgor ac wedi rhoi amlinelliad o'm hymatebion cychwynol i'r adroddiad yn yr atodiad.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrwydd llwyr y bydd y gwaith o drydaneiddio Prif Linell De Cymru yn parhau fel un prosiect, heb saib, yr holl ffordd i Abertawe.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi gofyn am sicrwydd gan Gadeirydd Network Rail (NR), yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth, ar drydaneiddio Prif Linell De Cymru i Abertawe.

Argymhelliad 2: Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fod yn rhagweithiol gyda Llywodraeth y DU, Cyngor Dinas Caerdydd, y Ddinas-Ranbarth, Network Rail a busnesau lleol er mwyn datblygu cynllun cadarn ar gyfer Gorsaf Caerdydd Canolog ochr yn ochr â'r gwaith uwchraddio sydd ei angen i'r trac a'r signalau i greu gorsaf sy'n addas ar gyfer prifddinas yn yr 21ain ganrif.

Ymateb: Derbyn

Wrth ail-ddatblygu Gorsaf Caerdydd Canolog, cynhelir trafodaethau hefyd gyda'r diwydiant rheilffyrdd yn ogystal â'r Adran Drafnidiaeth ynghylch buddsoddiadau sy'n flaenoriaeth yn ystod Cyfnod Rheoli 6 (2019-2024). Mae Tasglu wedi ei sefydlu a bydd yn sicrhau fod pawb yn dod at ei gilydd i ddatblygu'r rheilffyrdd a'r gorsafoedd bysiau gyda'i gilydd er mwyn creu canolfan integredig.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru arwain yn gryf ar baratoi cynllun busnes cynhwysfawr a grymus, yn gynnar, o blaid trydaneiddio Prif Linell Gogledd Cymru yn ystod Cyfnod Rheoli 6 gyda Llywodraeth y DU yn ariannu'r gwaith yn unol â'i chyfrifoldebau statudol.

Ymateb: Derbyn

Mae Achos Busnes Amlinellol Strategol wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB), y Mersey-Dee Alliance (MDA) a'r Cheshire and Warrington Local Enterprise Partnership. Mae'r trafodaethau â'r diwydiant a'r Adran Drafnidiaeth ynghylch buddsoddiadau sy'n flaenoriaeth yn parhau ar gyfer Cyfnod Rheoli 6 (2019-2024).

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i sicrhau mynediad i feysydd awyr yn Lloegr o ogledd Cymru, o ran ymgysylltu â gweithredwyr masnachfreintiau cyfagos a'r rhai sy'n gyfrifol am eu caffael a'u rheoli i sicrhau bod y cysylltiadau'n ddigonol, ond hefyd o ran nodi'r gwelliannau allweddol sydd eu hangen i'r seilwaith er mwyn darparu capasiti digonol a llobio ar gyfer buddsoddiad ynddynt.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cefnogaeth lawn i gais presennol Arriva Trains Cymru am lwybrau ychwanegol i Faes Awyr Manceinion. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Merseytravel i uwchraddio Halton Curve fydd yn galluogi gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol rhwng gogledd Cymru a Maes Awyr John Lennon yn Lerpwl.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddarparu gwell gwasanaethau yn y Canolbarth, yn enwedig rhagor o welliannau i gysylltu Aberystwyth â Chanolbarth Lloegr a rhwydwaith rheilffyrdd ehangach y DU.

Ymateb: Derbyn

Mewn trafodaethau gyda'r Adran Drafnidiaeth ynghylch cwmpas swyddogaethau breinio Gweinidogion Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio amddiffyn pob gwasanaeth dros y ffin, gan gynnwys y rhai hynny rhwng Aberystwyth a Maes Awyr Birmingham. Bydd unrhyw wasanaethau ychwanegol yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith i nodi masnachfaint nesaf Cymru a'r Gororau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu nifer o welliannau i'r fasnachfaint graidd yng nghanolbarth Cymru ers iddi ddechrau yn 2003, gan gynnwys cyflwyno gwasanaethau ychwanegol ym mis Mai 2015.

Argymhelliad 6: Dylid uwchraddio Prif Linellau Gogledd a De Cymru, gan gynnwys llinellau lliniaru, i'r maint llwytho mwyaf ar gyfer cynwysyddion cludo nwyddau (W12) cyn gynted â phosibl.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth Prydain a NR i ddarparu'r maint mwyaf priodol mewn dull mor effeithiol â phosibl.

Argymhelliad 7: Dylai Network Rail gadw uned cludo nwyddau ganolog, i ymgysylltu â gweithredwyr cludo nwyddau a'u cwsmeriaid. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r uned hon, Llwybr Cymru a gweithredwyr cludo nwyddau i nodi'r buddsoddiadau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt er mwyn gwella gwasanaethau cludo nwyddau yng Nghymru, a gweithio i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae cludo nwyddau yn elfen bwysig o wasanaeth rheilffordd effeithiol, ymatebol, a hoffai Llywodraeth Cymru weld NR yn sicrhau bod y maes hwn yn parhau i gael sylw. Fodd bynnag, mae'n fater i NR. Mae'r Shaw Report yn argymhell sefydlu llwybr cludo nwyddau newydd o fewn NR. Byddwn yn

gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth a NR i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y farchnad cludo nwyddau yng Nghymru.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwysleisio pa mor bwysig i wasanaethau cludo nwyddau yw trydaneiddio Llinell Bro Morgannwg yn llawn, ac y dylai'r gwaith gael ei ariannu gan Lywodraeth y DU.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i dynnu sylw at bwysigrwydd rheilffordd Bro Morgannwg i gludo nwyddau, yn enwedig yr angen i ofynion y seilwaith adlewyrchu ei swyddogaeth bwysig fel llwybr dargyfeirio.

Argymhelliad 9: Rydym yn cefnogi uchelgais y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn llawn â phroses yr adolygiadau cyfnodol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n llawn â'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd i sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hystyried.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, a bydd yn parhau i wneud hynny wrth gynnal yr adolygiad cyfnodol nesaf.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu mwy ag adolygiad yr Adran Drafnidiaeth o'r canllawiau ar gyfer gwerthuso prosiectau, er mwyn sicrhau eu bod yn fwy effeithiol, ac nad ydynt yn tansellio ymhellach achosion busnes yng Nghymru (ac ardaloedd eraill tebyg). Yn benodol, rhaid i'r broses adlewyrchu'n ddigonol y manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach a ddaw yn sgil buddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd.

Ymateb: Derbyn

Mae'r ffaith bod Llywodraeth Prydain yn cydnabod pwysigrwydd ystyried manteision economaidd ehangach wrth werthuso cynlluniau buddsoddi yn y rheilffyrdd yn cael ei groesawu, ac mae angen i hyn fod yn flaenllaw yn eu meddyliau wrth wneud penderfyniadau am fuddsoddi yn seilwaith rheilffyrdd Cymru.

Argymhelliad 11: Nes i ragor o bwerau gael eu datganoli'n ffurfiol i Gymru, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod â swyddogaethau eglur yn y broses gynllunio a chyflawni ar gyfer y rheilffyrdd, yn ogystal â pherthynas eglur â phartïon eraill yn y broses honno, a'r gallu mwyaf posibl i ddefnyddio'r ysgogiadau angenrheidiol i gynllunio a chyflawni prosiectau'n effeithiol ac i reoli risgiau.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Prydain i ddatganoli pwerau cyllido'r seilwaith rheilffyrdd a chyfarwyddyd rheoli'r seilwaith ac am Fanyleb Allbwn Lefel Uchel (HL0S) a Datganiad o'r Cyllid sydd Ar Gael (SOFA) ar wahân, fel sydd gan yr Alban, fydd yn gwneud pethau'n glir ac yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gynllunio a darparu gofynion y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod adolygiad gan Lywodraeth Prydain o reoliadau rheilffyrdd ac yn ystyried argymhellion a wnaethpwyd gan Nicola Shaw yn dilyn ei hadolygiad o strwythur a chyllido Network Rail. Drwy'r trafodaethau hyn, rydym yn anelu at wella a sicrhau eglurder i swyddogaeth Llywodraeth Cymru wrth gynllunio a darparu prosiectau y seilwaith rheilffyrdd. Rydym hefyd yn anelu at gael mwy o atebolrwydd yng Nghymru ar gyfer yr hyn y mae Network Rail yn ei gyflawni.

Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â chyrrff cynllunio a chyflawni ym maes y rheilffyrdd yn ystod Adolygiad Cyfnodol 18, yn enwedig Network Rail a'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, i sicrhau bod data ariannol a data'n ymwneud â pherfformiad ar lefel Cymru mor dryloyw ag y bo modd. Rydym hefyd o'r farn mai un peth allweddol a ddylai ddeillio o'r adolygiad cyfnodol yw bod targedau ac allbynnau Network Rail yn cael eu gosod ar lefel Cymru, a bod gwell data ar gael. Cyn belled ag y bo modd, dylai'r rhain fod yn cyfateb i'r rhai ar gyfer yr Alban.

Ymateb: Derbyn

Er nad yw pwerau sy'n gysylltiedig â chyfarwyddyd ar gyfer rheoli'r seilwaith yng Nghymru wedi eu datganoli i Weinidogion Cymru, mae Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd a phartneriaid allweddol i ddylanwadu ar y broses o ddatblygu allbynnau a chyllid ar gyfer Cyfnod Rheoli 6 CP6. Rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Prydain am fwy o dryloywder ac atebolrwydd ar gyfer y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru, fel sy'n bodoli yn yr Alban.

Argymhelliad 13: Credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi pwysau ar Network Rail i sicrhau bod ei strwythurau'n addas i'r diben o ran cyflawni ei swyddogaethau ar draws ffiniau llwybrau. Rydym yn credu y dylid datblygu'r rhain ochr yn ochr, ac yn gysylltiedig, â threfniadau Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer gweithio gyda rhanbarthau Lloegr.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Prydain i ddatganoli pwerau sy'n gysylltiedig â chyfarwyddyd ar gyfer rheoli'r seilwaith yng Nghymru i gyflawni ein huchelgais ar gyfer gwasanaethau rheilffordd ar draws y rhwydwaith. Wrth ystyried argymhellion Nicola Shaw yn dilyn ei hadolygiad o strwythur a chyllid NR, mae angen ystyried sut i gael mwy o ymreolaeth ar

Reilffyrdd Cymru ac ar yr un pryd sicrhau hefyd bod materion sydd y tu hwnt i ffiniau'r rheilffyrdd yn cael ystyriaeth briodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhan o'r trafodaethau hyn.

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrrff cenedlaethol allweddol, yn enwedig Network Rail, i sicrhau bod prosiectau sydd i'w cyflawni yng Nghymru yn cael eu rheoli yng Nghymru gyda goruchwyliaeth effeithiol gan Lywodraeth Cymru pan fo'n briodol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Prydain i ddatganoli pwerau cyfarwyddyd i reoli'r seilwaith yng Nghymru. Mae cyflawni gwelliannau mawr o dan y fframwaith presennol yn parhau i fod y tu allan i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru, ac mae hyn yn amharu ar ein gallu i sicrhau newid sylweddol yn ansawdd y gwasanaethau ledled Cymru.

Byddai datganoli i Gymru yn dod â mwy o dryloywder ac atebolrwydd i'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru i Weinidogion Cymru. Os na chaiff y maes hwn ei ddatganoli, rydym yn ceisio sicrhau swyddogaeth reoli gryfach yng Nghymru – ac i fod yn atebol – am brosiectau i wella'r rheilffyrdd. Byddwn yn trafod hyn yn fanwl mewn trafodaethau ar lefel Prydain yn dilyn argymhellion Nicola Shaw, wedi ei hadolygiad o strwythur a chyllid NR, i sicrhau ein bod yn manteisio ar bob cyfle i gael mwy o gyfrifoldeb yng Nghymru yn hyn o beth.

Argymhelliad 15: Hyd yn oed heb i bwerau ym maes seilwaith gael eu datganoli'n ffurfiol trwy ddeddfwriaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru gael mwy o gyfrifoldeb am seilwaith y rheilffyrdd, gan gynnwys cyfrannu at gynnal yr Adolygiad Cyfnodol, datblygu'r HLOS, cyflawni prosiectau a llywodraethu Network Rail. Rhaid i Network Rail fod yn fwy atebol i Lywodraeth Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn barod ar gyfer unrhyw rôl ehangach, yn enwedig o ran ei strwythur a'r adnoddau sydd ar gael.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r diwydiant rheilffyrdd, yr Adran Drafnidiaeth a Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR) wrth i gynlluniau a threfnidadau gael eu datblygu cyn Cyfnod Rheoli 6. Mae adolygiad Shaw wedi argymhell mwy o ymreolaeth ar gyfer llwybrau NR ac mae Llywodraeth Cymru am weld newidiadau canlyniadol sy'n gwneud NR yn fwy atebol yng Nghymru.

Argymhelliad 16: Mae achos cryf dros gyflwyno newid deddfwriaethol i ddatganoli'r gyfrifoldeb am gyllido Network Rail i Gymru fel a wnaed yn yr Alban. Fodd bynnag, cyn datganoli, rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU nodi'n eglur ac yn gyhoeddus sut y rhoddir sylw i'r materion a

ganlyn:

- Setliad cyllido teg i gyd-fynd â datganoli;
- Sut y bydd dyled Network Rail yn cael ei ddosrannu, a benthycu yn y dyfodol yn cael ei reoli;
- Sut y bydd natur drawsffiniol y rhwydwaith yn cael ei rheoli;
- Sut y bydd y risgiau'n cael eu rheoli, gan gynnwys risgiau o orwario, diffygion cudd yn y rhwydwaith, a gwaith adfer mewn argyfwng.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno eu hachos ar gyfer datganoli pwerau sy'n gysylltiedig â seilwaith y rheilffyrdd, ac mae'n rhaid trosglwyddo cyllid teg ar gyfer hyn.

Argymhelliad 17: Rhaid i Lywodraeth Cymru gynyddu ei hymdrechion i ddatblygu cysylltiadau allweddol ar draws y ffin â chyrrff cynllunio a chyflawni datganoledig yn y sector rheilffyrdd, a rhanddeiliaid allweddol eraill yn Lloegr. Dylai hyn ddatblygu'r gwaith da sydd eisoes ar y gweill yng ngogledd Cymru a gogledd Lloegr.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cydweithio'n agos â phartneriaid allweddol, sefydliadau, a'r rhai hynny sydd â diddordeb i ystyried materion ar draws y ffin, gan adeiladu ar y cydweithio agos yr ydym wedi ei sefydlu gyda thrafnidiaeth y Gogledd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn aelod sefydlu'r Rhwydwaith Datganoli Rheilffyrdd, sy'n cynnwys sefydliadau sydd â chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r rheilffyrdd ledled Prydain.

Argymhelliad 18: Wrth ddod i gytundeb ynglŷn â manylion datganoli cyfrifoldebau masnachfreinio, rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth mewn trafodaethau â'r DU i sicrhau bod masnachfrait nesaf Cymru a'r Gororau yn cynnwys llwybrau poblogaidd, proffidiol sy'n hanfodol i'r cyhoedd sy'n teithio.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos i Lywodraeth Prydain y dylai gwasanaethau ar draws y ffin sy'n cael eu cynnal gan fasnachfrait Cymru a'r Gororau ar hyn o bryd barhau yn y fasnachfrait yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau masnachfrait y rheilffyrdd.